**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **25 MEDI 2014** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5 MEDI 2014** |
| AWDUR | **JOHN PUGHE ROBERTS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 9 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 15 Gorffennaf 2014, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2014. Derbyniodd 2 o'r adroddiadau hyn farn 'C', felly penderfynwyd y dylid ystyried y ddau adroddiad gan y Gweithgor.

## 2 CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 5 Medi gyda Cadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorydd Trefor Edwards a Dewi Morgan, Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn bresennol.

2.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd farn 'C' yn ystod y cyfnod dan sylw oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH |
|---|---|---|
| Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion | Addysg | Ysgolion |
| Plas Ogwen, Bethesda | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gwasanaethau Darparu |

2.3 Mynychodd swyddogion i drafod y ddau adroddiad.

## 2.5 Trefniadau Prydlesu Mewn Ysgolion

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad yma oedd:

*Gwelwyd nad yw ysgolion yn cysylltu gyda'r Uned Cyllid Datblygu o flaen llaw er mwyn derbyn cymeradwyaeth cyn prydlesu cyfarpar yn yr ysgol. Mae hyn yn groes i ofynion Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor. Yn ogystal, gwelwyd nad oes gan yr Uned Cyllid Datblygu restr cyfredol o gyfarpar sy'n cael eu prydlesu gan ysgolion Gwynedd. Mae hyn yn groes i ofynion y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Gwelwyd nad yw rhai ysgolion wedi cadw copi arwyddedig o'r cytundeb/au a sefydlwyd gyda cyflenwyr prydlesu cyfarpar sy'n amlygu costau ac amodau a thelerau'r brydles, neu roedd ysgolion wedi colli eu copïau arwyddedig o'r cytundebau prydles gyda'r cyflenwyr.*

2.5.2 Croesawyd Owen Owens, Uwch Reolwr Ysgolion, i'r cyfarfod.

2.5.3 Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg gefndir yr archwiliad, a'r rheswm dros ei gynnal. Eglurwyd fod risgiau yn bodoli gyda trefniadau prydlesu cyfarpar, gydag achosion y tu allan i Wynedd wedi derbyn sylw cenedlaethol ar ôl i ysgolion ymrwymo eu hunain i gytundebau drudfawr nad oedd yn cynnig gwerth am arian.

2.5.4 Yn ogystal â hyn, mae rheolau cyfrifo sy'n rhaid eu dilyn – er fod prydlesu yn ymddangos yn opsiwn deniadol i gaffael cyfarpar yn hytrach na defnyddio arian cyfalaf, rhaid sicrhau fod y cyfrifon yn adlewyrchu cost yr eitemau hyn.

2.5.5 Bwriad yr archwiliad yma, felly, oedd sicrhau fod ysgolion Gwynedd wedi cymryd camau rhesymol i liniaru'r risgiau sydd ynghlwm â prydlesu cyfarpar. Un fodd allweddol o wneud hyn yw fod ysgolion, yn unol â'r rheolau sydd wedi eu gosod allan gan y Cyngor, yn cysylltu gyda'r Uned Cyllid Datblygu cyn ymrwymo i gytundebau prydlesu. Gwelwyd nad oedd hyn yn digwydd pob amser, ac o'r herwydd nid oedd gan yr Uned Gyllid Datblygu gofrestr gyfredol o brydlesau. Fel canlyniad, roedd yr archwiliwr o'r farn fod angen i'r Uned Gyllid fod yn rhagweithiol wrth gysylltu gyda'r ysgolion.

2.5.6 Eglurodd yr Uwch Reolwr Ysgolion mai llungopiwyr yw'r eitemau sydd yn cael eu prydlesu fel arfer – mae gan yr Adran Addysg gynllun gwahanol i gynnig benthyciadau i ysgolion i brynu offer cyfrifiaduron trwy ddefnyddio llog ar falansau.

2.5.7 Roedd yr Uwch Reolwr Ysgolion yn awyddus i'r gweithgor ddeall fod yr Uned Gyllid Datblygu (sy'n rhan o'r Adran Gyllid, nid Addysg) yn gefnogol iawn i ysgolion ac yn cynnig arweiniad defnyddiol, gyda'r ddau Uwch Gyfrifydd sy'n cefnogi ysgolion yn rhoi llawer o arweiniad iddyn. Mae'r Uned wedi adnabod ffordd wahanol i fynd at ysgolion, oherwydd cydnabyddiaeth fod cyrsiau hyfforddiant yn iawn, ond gall eu heffeithiolrwydd fod yn gyfyngedig. Ymysg y dulliau newydd o rannu gwybodaeth sydd yn cael eu treialu mae gosod ymarfer da ar y Mewnrwyd.

2.5.8 Eglurwyd wrth y gweithgor gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai un anfantais o gynnal archwiliadau ar sail thema yw fod yr ysgolion i gyda yn endidau unigol. Roedd 10 ysgol yn y sampl a archwilwyr ar gyfer yr archwiliad yma, ac roedd ansawdd y rheolaethau mewnol yn y trefniadau prydlesu yn amrywiol. Petai'r sampl yn wahanol, efallai y byddai barn yr archwiliad yn wahanol. Er mwyn delio â hyn, mae'r Uwch Reolwr Ysgolion yn trefnu fod neges yn mynd i bob ysgol i egluro fod angen gwella trefniadau. Roedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn gwerthfawrogi hyn, gan gydnabod fod cymaint o arweiniad a rheolau yn cael eu hanfon i ysgolion a'i fod yn ddisgwyliedig mai'r rhai sydd yn ymwneud ag addysg a lles y disgyblion sydd yn cael y flaenoriaeth uchaf.

2.5.9 Adroddwyd fod yr Reolwr Cyllid Datblygu wedi cadarnhau yn ysgrifenedig fod y 3 argymhelliad oedd yn gyfrifoldeb yr Uned Gyllid am gael eu gweithredu. Yr argymhellion hyn oedd:

- ***Dylid sicrhau bod ysgolion yn derbyn dyfynbrisiau priodol yn unol â rheol 8.4 o'r 'Rheolau Ariannol i Ysgolion a Chyllidebau Dirprwyedig' wrth brydlesu cyfarpar mewn ysgolion yn y dyfodol, yn ogystal â chadw copi o'r ymholiadau/dyfynbrisiau ar ffeil yn yr ysgol***. (A01)
- ***Dylid anfon nodyn gwybodaeth at sylw ysgolion yn flynyddol yn eu hatgoffa o'r angen i dderbyn cymeradwyaeth yr Uned Cyllid Datblygu o flaen llaw cyn sefydlu cytundeb prydles yn y dyfodol, a'r angen i gyflwyno'r manylion prydles yma i'r Uned Cyllid Datblygu***. (A05)
- ***Dylid sicrhau fod y rhestr prydlesu cyfarpar mewn ysgolion ym mherchenogaeth yr Uned Cyllid Datblygu yn cael ei ddiweddaru a'i gadw'n gyfredol yn y dyfodol, gan fynd ar ôl ysgolion sydd ddim yn cyflwyno eu manylion prydlesu cyfarpar i'r Uned Cyllid Datblygu.*** (A06)

2.5.10 O safbwynt argymhelliad A02 (***Yn dilyn adolygiad o'r fframwaith newydd, dylid amlygu i ysgolion y cyflenwr mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio ar gyfer prydlesu cyfarpar yn y dyfodol. Yn ogystal, dylid amlygu manylion cyswllt y swyddogion perthnasol o fewn y Cyngor y gallai darparu cymorth i ysgolion gyda'r broses prydlesu cyfarpar***), adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Ysgolion fod adolygiad corfforaethol o fframwaith llungopiwyr ac argraffyddion yn digwydd ar hyn o bryd. Mae'n gynamserol gweithredu'r argymhelliad yma ar hyn o bryd, felly. Nid oedd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn ymwybodol o'r amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad.

2.5.11 Roedd yr Uwch Reolwr Ysgolion wedi bwriadu gweithredu argymhelliad A03 (***Dylid amlygu i ysgolion y pwysigrwydd i sefydlu a cadw copi arwyddedig o'r cytundebau maent yn eu sefydlu gyda cyflenwyr prydlesu cyfarpar, yn ogystal â derbyn copi o amodau a thelerau'r cytundebau***) ar yr un pryd ag argymhelliad A02, ond gan nad oes amserlen pendant yn ei le ar gyfer gweithredu'r fframwaith bydd yn symud ymlaen i weithredu A03 yn gynharach.

2.5.12 Bydd neges yn cael ei anfon allan i bob ysgol fod angen iddynt weithredu yn unol â'r disgwyliad, a bydd archwiliad dilyniant yn cael ei gynnal ymhen oddeutu 6 mis. Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg na fyddai'n dewis sampl gwahanol ar gyfer yr archwiliad gan y byddai hynny, i bob pwrpas, yn archwiliad newydd.

**2.5.13 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Ysgolion am fynychu'r cyfarfod ac am ei atebion parod.**

### 2.6 Plas Ogwen, Bethesda

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Darganfuwyd bod enghreifftiau o ymarfer da yn bodoli mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac fel canlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Gwiriwyd hyn mewn gwahanol feysydd y Cartref megis trefniadau cyllidebol, trefn briodol o archebu, derbyn a thalu am nwyddau a gwasanaethau, trefniadau arian poced y preswylwyr a threfniadau cyfrif amwynder. Oherwydd hyn, dylid cymryd camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.*

2.6.2 Croesawyd Gwenno Williams, Uwch Reolwr Gweithredol, a Gwen Hughes, Rheolwr Ardal Arfon, i'r cyfarfod.

2.6.3 Eglurwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod Archwilio Mewnol wedi adolygu cartrefi preswyl ar sail thema yn y blynyddoedd diweddar, ond wrth gynllunio gwaith 2014/15 derbyniwyd cais i gynnal archwiliad llawn ar ddau gartref penodol, sef Plas Maesincla, Caernarfon a Plas Ogwen, Bethesda. Cynhaliwyd y ddau archwiliad yma yn gynnar yn y flwyddyn ariannol – derbyniodd adolygiad Plas Maesincla farn 'B', a Plas Ogwen farn 'C'.

2.6.4 Eglurwyd fod rheolaeth Plas Maesincla wedi cael ei drawsnewid yn ddiweddar, a'i fod erbyn hyn yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft o ymarfer da ar gyfer holl reolwyr y Cyngor. Ymhellach, adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Gweithredol fod y Comisiynydd Pobl Hyn yn bwriadu ymweld â Plas Maesincla i weld y trawsnewid drosti'i hun, ar ôl gweld fideo sydd wedi cael ei baratoi.

2.6.5 O safbwynt archwiliad Plas Ogwen, eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod y rhaglen archwilio yn un helaeth a nad oes disgwyl i bopeth fod yn berffaith. Fodd bynnag, roedd llawer o agweddau o weinyddiaeth y cartref angen sylw ar adeg yr archwiliad. Roedd y Rheolwr Ardal yn cytuno â hyn.

2.6.6 Adroddwyd fod Rheolwr y cartref yn cydnabod fod lle i wella, ac wedi derbyn cynnwys yr adroddiad. Adroddwyd gan y Rheolwr Ardal ei bod wedi trafod yr adroddiad gyda'r rheolwr, fod pethau wedi datblygu, ac fod gwelliant wedi ei weld.

2.6.7 Wrth roi sylw i'r gorwariant sylweddol o £70,000 yn 2013/14, eglurodd yr Uwch Reolwr Gweithredol fod y gorwariant sydd yn cael er ragweld ar gyfer 2014/15, hanner ffordd trwy'r flwyddyn, yn sylweddol is. Nodwyd hefyd fod yn gorwariant yma yn cynnwys costau sy'n cael eu trafod gyda'r gwasanaeth Eiddo, all ddod â'r gorwariant i lawr ymhellach. Roedd yr Uwch Reolwr yn fodlon fod Rheolwr y cartref yn cymryd materion rheolaethol o ddifri. Gofynnwyd os oedd cartrefi eraill yn gorwario llynedd. Nodwyd fod rhai, ond mae'r cartref yma oedd y gwaethaf

2.6.8 Mae rhai agweddau lle mae rheoli costau staffio yn anodd, gan fod rhaid cael gweithwyr cyflenwi pan fydd staff i ffwrdd yn sâl neu ar hyfforddiant (mae'r Safonau Gofal yn mynnu fod yr holl staff yn cael hyfforddiant pob blwyddyn). Cydnabyddir hefyd fod angen mynd i'r afael ag absenoldebau salwch.

2.6.9 Rhoddwyd esboniad gan yr Uwch Reolwr o sut mae'r cartref yn cael ei ariannu, ac fod Cyngor Gwynedd yn talu am unrhyw lefydd gwag.

2.6.10 Anelir i gael yr un safon ym mhob cartref preswyl, sy'n golygu ei fod yn hanfodol fod cofnod cywir yn cael ei gadw yn y cartrefi er mwyn gallu cymharu. Dywedodd yr Uwch Reolwr Gweithredol fod y neges wedi cael ei roi i bob cartref ynglŷn â canlyniadau methiant i gymryd gofal o arian cyhoeddus. Roedd yr Uwch Reolwr yn hyderus na fydd gorwariant yn digwydd ar yr un raddfa eleni.

2.6.11 Mae'r Rheolwr wedi bod yn gweithio yn y cartref ers peth amser, ac yn rheoli ers 5 mlynedd. Nodwyd fod pob cymorth wedi ei roi i'r Rheolwr, ac fod cefnogaeth Is-Reolwr yn y Cartref erbyn hyn.

2.6.12 Roedd yr Uwch Reolwr Gweithredol a Rheolwr Ardal Arfon yn cadarnhau eu bod yn derbyn yr holl argymhellion. Cyflwynwyd copi o'r cynllun gweithredu ganddynt yn dangos y sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt gweithredu pob un o'r argymhellion. Roeddynt yn gwerthfawrogi'r archwiliad ac yn ei weld yn gyfle i ddysgu. Roedd y Gweithgor hefyd yn awyddus i weld y Rheolwr yn cael ei cefnogi

**2.6.13 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol a Rheolwr Ardal Arfon am fynychu'r cyfarfod ac am eu atebion clir i egluro'r sefyllfa ddiweddaraf.**